



CAFC
RWAS

# Sioe Frenhinol Cymru
# Royal Welsh Show

*20 - 23 Gorffennaf 2026*

**Noddwr: Ei Fawrhydi Brenin Siarl III**
**Llywdd: Mr Gethin W T Havard, FRAgS**

## Atodlen Eisteddflodau

**Pabell Eisteddflodau –**
**Pentref Garddwriaeth**

**YMGEISIO AR-LEIN**

*cafc.cymru*
*rwas.wales*

***Ceisiadau Olaf:***
***24 Mehefin 2026***

Ceisiadau olaf – **Dydd Mercher 24 Mehefin 2026**

*Manylion cyswllt* -
Amanda Burton
CAFC, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY
Ffôn: 01982 554409 E-bost: amanda@rwas.co.uk www.cafc.cymru

Annwyl Arddangosydd

Bydd y Pentref Garddwriaeth yn parhau i ddathlu pob agwedd ar arddwriaeth yng Nghymru – o dyfu cymunedol i dyfu masnachol, arddangosfeydd ac arddangosfeydd cystadleuol; ochr yn ochr â hyrwyddo manteision iechyd a chymdeithasol garddio. Yr ethos yw 'ysbrydoli, addysgu a chydweithio.' A bydd yn creu cyfle i gydweithio trwy fannau cymdeithasol cynhwysol, ardaloedd cyfarfod a llwyfannau arddangos.

Bydd yr elfen gystadleuol yn cael ei lleoli yn yr un lle â'r llynedd a gellir cyrraedd trwy lwybrau mewnol neu allanol. Bydd ardal Garddle (cystadlaethau cyffredinol, gweithgareddau i blant, stondinau masnach) yn parhau i lifo i'r ardal Eisteddflodau (Trefnu Blodau, gweithdai a stondinau masnach).

Bydd modd cyflwyno ceisiadau trwy'r system gofrestru ar-lein sy'n gyfleus ac yn hawdd ei defnyddio, heb y gwaith ychwanegol a'r gost o bostio, a ffordd ddiogel o dalu. Byddwn yn parhau i gynnig yr opsiwn o wneud hyn trwy'r system bost draddodiadol i'r rheiny nad oes ganddynt gysylltedd addas (cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth).

Nodwch y wybodaeth ychwanegol isod.

Pob lwc gyda'r cystadlu a diolch am eich cefnogaeth a'ch diddordeb.

**Gwybodaeth ychwanegol**

- Bydd y babell trefnu blodau ar agor i dderbyn darnau arddangos o **10.00am hyd 9.00pm Ddydd Sul 19 Gorffennaf 2026** (bydd unrhyw bryd yn hwyrach na hyn yn amodol ar gytundeb ymlaen llaw gyda'r Prif Stiward ac yn ôl ei ddisgresiwn).
- Nodwch - **NI CHANIATEIR cefndir ar gyfer unrhyw Ddosbarth CAFC**.
- Roedd y Gymdeithas wedi cytuno i ddarparu un tocyn mynediad (unrhyw ddiwrnod) i bob arddangoswr am gyfnod arbrofol o ddwy flynedd yn unig. 2026 bydd yr ail flwyddyn o'r cyfnod arbrofol. Bydd canlyniadau hyn yn cael eu cofnodi a'u monitro'n frwd. Bydd tocynnau mynediad yn cael eu dosbarthu gan y Prif Stiward ar gyflwyno'r ceisiadau ar fore Sul 19 Gorffennaf 2026.
- Bydd cystadleuaeth Trefnu Blodau CFfI Cymru yn y babell eto yn 2026.
- Nodwch fod y dosbarth Nofis wedi cael ei rannu ar gyfer 2026; mae un dosbarth ar gyfer arddangoswyr sydd o dan 30 oed ac un dosbarth ar gyfer dechreuwyr llwyr.
- Atodlen Garddwriaeth ac Atodlen Ieuenctid ar gael ar wahân.
- <u>Cyflwyno'r Gwobrau</u> (bydd hyn yn digwydd yn ardal yr adran perthnasol)
  Adrannau Amatur Trefnu Blodau a Garddwriaeth - Dydd Llun 20 Gorffennaf 1.30pm
  Adran Iau, Cystadleuaeth Whilber/Berfa'r Plant a Chystadleuaeth Garddio Ysgolion y Sir Nawdd - Dydd Iau 23 Gorffennaf 11.00am

Nodwch y byddai'n well gan y Gymdeithas ddefnyddio defnyddiau cynaliadwy bioddiraddadwy / amgen ar gyfer 2026 a'r dyfodol, yn hytrach na ffôm /oasis mewn unrhyw ddosbarth yn yr Adran Amatur.
Mae'r Is-Bwyllgor Trefnu Blodau yn cadw'r hawl i newid unrhyw ddosbarthiadau.

## SWYDDOGION

**Cyfarwyddwr Anrhydeddus Y Sioe**
Richard Price

**Cyfarwyddwr Anrhydeddus Cynorthwyol – Garddwriaeth**
Adam Jones

**Pennaeth Gweinyddiaeth**
Caron W Evans

**Prif Stiward**
Rosemarie Harris

**Uwch Stiward**
Elizabeth Thomas

**Stiwardiaid**
(I'w cadarnhau)

## BEIRNIAID

Michael Bowyer, Caersallog
Jackie Charnock, Sir Amwythig

Nodwch

- Amser beirniadu – **7.30am** Ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026.
- Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl y dyddiad cau. Mae'r tâl cystadlu yn cynnwys TAW.
- Ni all arddangoswyr ymgeisio mewn unrhyw ddosbarth nad ydynt wedi ei nodi ar eu ffurflen gais. Dim ond cardiau dosbarth a gynhyrchwyd yn swyddogol a ganiateir.

**AMSERAU AGOR Y BABELL GARDDWRIAETH:**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun | 10.00am – | 7.00pm |
| Dydd Mawrth | 9.00am – | 7.00pm |
| Dydd Mercher | 9.00am – | 7.00pm |
| Dydd Iau | 9.00am – | 5.00pm |

## DOSBARTHIADAU TREFNU BLODAU

Beirniadir yn unol â fersiwn ddiweddaraf rheolau The National Association of Flower Arrangement Societies, a gellir cael copi ohonynt o'r cyfeiriad isod:-
The Secretary, NAFAS HQ, 1st Floor 42-44 Bishopsgate, London EC2M 4AH.
Ffôn: 020 7247 5567 E-bost: flowers@nafas.org.uk Gwefan: www.nafas.org.uk

*DIFFINIADAU*

***Darn Arddangos***

Mae darn arddangos yn cynnwys deunydd planhigion naturiol ar bob ffurf, gydag ategolion neu hebddynt, mewn gofod a nodir yn atodlen y sioe.
Gellir cynnwys sylfeini, cynwysyddion, gorchuddion, teitlau ar gyfer darnau arddangos a mecaneg bob tro mewn darn arddangos, oni nodir yn wahanol.
Gellir cynnwys mwy nag un gosodiad bob tro, oni nodir yn wahanol.

***Pedestal***

Plinthau, stondinau, colofnau neu strwythurau fertigol sy'n rhan integrol o'r dyluniad, a ddefnyddir i godi'r prif osodiad. Caniateir is-osodiadau, ond dylai'r prif osodiad fod yn uwch.

***Pavé/Tapestri***

Gosodir deunydd planhigion a chydrannau eraill yn agos at arwyneb ffôm blodau neu fecaneg arall a'u grwpio at ei gilydd yn ôl eu math.

***Cyfosodiad***

Dyluniad bas tri dimensiynol lle mae cydrannau'n cael eu defnyddio i greu haenau unigol gwahanol ond yn weledol gysylltiedig o wahanol uchder. Gellir eu hongian yn erbyn cefndir neu eu gosod ar fwrdd - i'w nodi yn yr atodlen.

* *ARBENNIG 1*: Cyflwynir Tlws Parhaol Marcwis Môn i'r arddangosydd â'r mwyaf o bwyntiau yn Nosbarthau 1 i 12 gan gynnwys y Dosbarthiadau hynny (os bydd mwy nag un cystadleuydd yn gydradd, cyflwynir dwy gofrodd).

* *ARBENNIG 2*: Cyflwynir Tlws Parhaol Pererindod-y-Blodau gan Mrs Iona Trevor-Jones, am y darn arddangos unigol gorau. Nodwch mai dosbarthiadau Ffederasiwn Sefydliad y Merched a MYW yw dosbarthiadau 13 a 14.

*ARBENNIG 3*: Cyflwynir Tlws Blynyddol Delyth Price am y darn arddangos unigol ail orau. (Mae'r tlws hwn yn cael ei ddarparu a'i reoli gan Delyth Price) Nodwch mai dosbarthiadau Ffederasiwn Sefydliad y Merched a MYW yw dosbarthiadau 13 a 14.

* *ARBENNIG 4*: Cyflwynir Tlws Parhaol Ffederasiwn Sefydliad y Merched Sir Frycheiniog am y darn arddangos gorau yn Nosbarth 13.

*ARBENNIG 5*: Tlws Merched y Wawr am yr arddangosfa orau yn nosbarth 14.

*ARBENNIG 6*: Rhoséd CAFC i Bencampwr a Chil Wobr Orau y Sioe.

*ARBENNIG 7*: Cerdyn Arbennig CAFC am y darn arddangos sy'n gwneud y defnydd gorau o Ddeunydd Planhigion Gardd.

*ARBENNIG 8*: Cerdyn Arbennig CAFC am y darn arddangos sy'n gwneud y defnydd gorau o Lliw.

*ARBENNIG 9*: Cerdyn Arbennig CAFC am y darn arddangos sy'n gwneud y defnydd gorau o Ddeiliach.

ARBENNIG 10: Cerdyn Arbennig CAFC am y darn arddangos Mwyaf Arloesol.

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran Trefnu Blodau gan:
**Anne George (Dosbarth 9)**

| **Dosbarth** | | **Tâl Ymgeisio** | **Gwobrau 1** | **2** | **3** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | **'Hollywood'**<br>I'w lwyfannu ar sylfaen 1.22m sg, 15cm o ddyfnder.<br>**NI** ddarperir unrhyw gefndir yn y dosbarth hwn.<br>Nid oes cyfyngiad ar uchder y darn arddangos.<br>**I'W LWYFANNU GAN DDIM MWY NA DAU UNIGOLYN – YN AGORED I UNIGOLION, CYMDEITHASAU BLODAU, CLYBIAU A/NEU UNRHYW GRWPIAU.** | £1.50 | £30.00 | £20.00 | £10.00 |
| **2.** | **'Asia Ecsotig'**<br>Darn arddangos i'w lwyfannu ar giwb 75cm wedi'i beintio'n wyn (a ddarperir) o fewn gofod llawr o 1m sg. Uchder yn anghyfyngedig.<br>I'w feirniadu o bob cyfeiriad. | £1.50 | £30.00 | £20.00 | £10.00 |
| **3.** | **'Llygad Dynnwr'**<br>Darn arddangos cyfoes.<br>Caniateir tua 61cm o led a 68cm o ddyfnder, uchder yn anghyfyngedig. | £1.50 | £25.00 | £15.00 | £8.00 |
| **4.** | **'4ydd o Orffennaf'**<br>Darn arddangos sy'n sefyll ar y llawr.<br>Arddangosydd i ddarparu sylfaen lwyfannu addas. Caniateir gofod o 1m sg.<br>Uchder yn anghyfyngedig. | £1.50 | £30.00 | £20.00 | £10.00 |
| **5.** | **'Beatrix Potter'**<br>Darn arddangos sy'n gyfosodiad (*montage*).<br>Caniateir 76cm o led, 68cm o ddyfnder, uchder yn anghyfyngedig. **Bydd yr arddangosion yn cael eu gosod ar fyrddau.** | £1.50 | £25.00 | £15.00 | £8.00 |
| **6.** | **'Siandelïer'**<br>Darn arddangos sy'n hongian.<br>Ni ddylai'r darnau arddangos fod yn fwy na 70cm o ddiamedr, uchder yn anghyfyngedig.<br>Gelli'r dod â'r darn arddangos wedi'i osod at ei gilydd yn barod.<br>Arddangoswr i ddarparu dolen i'w hongian. | £1.50 | £25.00 | £15.00 | £8.00 |
| **7.** | **'Gofod'**<br>Darn arddangos cyfoes heb defnyddio ffôm.<br>Caniateir 61cm o led, 68cm o ddyfnder, uchder yn anghyfyngedig. | £1.50 | £25.00 | £15.00 | £8.00 |

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| **8.** | **‘Bedwen Fai’**<br>Darn arddangos sy’n sefyll ar y llawr.<br>Yr arddangosydd i ddarparu sylfaen lwyfannu addas. Caniateir gofod o 1m sg.<br>Uchder yn anghyfyngedig. | **£1.50** | **£30.00** | **£20.00** | **£10.00** |
| **9.** | **‘Tywydd Stormus’**<br>Darn arddangos bach gyda deunydd planhigion ffres, a gellir defnyddio ategolion.<br>**(Heb fod yn fwy na 25cm o led a dyfnder; uchder yn opsiynol ond rhaid ei fod mewn cyfrannedd)** i’w lwyfannu ar blinthau o uchderau amrywiol, wedi eu peintio’n las, a ddarperir. | **£1.50** | **£15.00** | **£10.00** | **£5.00** |
| **10.** | **‘Cyfaredd’**<br>Darn arddangos bach iawn sy’n cynnwys deunydd planhigion ffres, a gellir defnyddio ategolion.<br>**(Heb fod yn fwy na 10cm o led a dyfnder; uchder yn opsiynol ond rhaid ei fod mewn cyfrannedd)** i’w lwyfannu ar fwrdd wedi’i orchuddio â deunydd llwyd. | **£1.50** | **£15.00** | **£10.00** | **£5.00** |
| **11.** | **‘Broadway’**<br>Darn arddangos.<br>***Mae’r dosbarth hwn yn agored i gystadleuwyr o dan 30 oed yn unig.***<br>Caniateir 76cm o led, 68cm o ddyfnder, uchder yn anghyfyngedig. | **£1.50** | **£15.00** | **£10.00** | **£5.00** |
| **12.** | **‘Jane Austen’**<br>Darn arddangos i ddathlu 250 mlynedd ers geni Jane Austen.<br>***Mae’r dosbarth hwn yn agored i gystadleuwyr sy’n nofisiaid llwyr_yn unig.***<br>Caniateir 76cm o led, 68cm o ddyfnder, uchder yn anghyfyngedig. | **£1.50** | **£15.00** | **£10.00** | **£5.00** |

## <u>Dosbarthiadau Sefydliad y Merched a Merched y Wawr:</u>

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| **13.** | **‘Cylchau, Cylchenni a Phopeth Crwn**<br>Darn arddangos sy’n agored i enillydd cystadlaethau cymwys Sefydliad y Merched yn unig.<br>Dylid nodi enw’r Ffederasiwn a’r arddangosydd.<br>Caniateir gofod o 76cm o led, 68cm o ddyfnder, uchder yn anghyfyngedig. | **£1.50** | **£15.00** | **£10.00** | **£5.00** |
| **14.** | **‘Adlewyrchiad’**<br>Darn arddangos sy’n agored i enillwyr cystadlaethau rhagbrofol Merched y Wawr yn unig.<br>Enw’r Mudiad a’r cystadleuydd i’w datgan.<br>Caniateir gofod arddangos o 76cm o led, 68cm o ddyfnder, uchder yn anghyfyngedig. | **£1.50** | **£15.00** | **£10.00** | **£5.00** |

## RHEOLAU AC AMODAU CYFFREDINOL

RHEOLAU CYFFREDINOL

1. Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol a'u prosesu yn unol â gofynion cyfreithiol yn unig. Am ragor o fanylion dylech ofyn am gopi o'n Polisi GDPR. Rydym yn prosesu eich data personol gan eu bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein contract gyda chi i hwyluso eich gallu i gystadlu yn y digwyddiad. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data tu allan i'r DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Ni fyddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd parti ac eithrio awdurdodau rheoleiddio neu Gymdeithasau cyswllt y gallem gyflwyno ceisiadau iddynt a chanlyniadau i'w gwirio i sicrhau eu bod yn ddilys ac yn gymwys, ar sail eu buddion cyfreithlon. Cyhoeddir eich enw a'ch sir yng nghatalog y Gymdeithas. Bydd canlyniadau hefyd yn cael eu dosbarthu ymhlith aelodau'r wasg a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cadw'ch data yn unol â'n hamserlen gadw er mwyn symleiddio ceisiadau yn y dyfodol. Mae gennych hawliau amrywiol o ran y data yr ydym yn eu dal, gan gynnwys yr hawl i gywiro a gwrthwynebu i'ch data gael eu prosesu. Cofiwch hefyd y bydd ffotograffau a ffilmiau'n cael eu cymryd ar draws Maes y Sioe at ddibenion darlledu, cyhoeddusrwydd a marchnata.

2. Nodwch, os yw'r arddangosydd o dan 18 oed, yna rhaid i riant/warcheidwad sydd dros 18 oed gwblhau'r cais ar-lein. Nodwch fod y sawl sy'n llenwi'r cais yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros gydymffurfio â'r holl reolau a rheoliadau.

3. **Tlysau a Chwpanau Her – NODWCH:-** Bydd y Tlysau a'r Cwpanau Her yn cael eu cadw'n barhaol mewn Ystafell Dlysau sydd wedi ei hadeiladu yn arbennig at y diben yn Neuadd Clwyd Morgannwg. Bydd enillydd pob Tlws a Chwpan Her yn cael Cofrodd Swyddogol Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru i'w chadw, a bydd eu henw'n cael ei engrafu ar y Tlysau a'r Cwpanau Her hefyd.
   Mae Gwobrau Arbennig a nodir gyda * yn dangos Cwpanau a Thlysau sy'n eiddo i'r Gymdeithas.

4. **Mae'r Gymdeithas, a'r Gymdeithas yn unig, yn cadw'r hawl i enwebu rhywun/rhywrai i gynnal cyfweliadau gyda'r cyfryngau. Rhaid cael caniatâd y Gymdeithas os oes unrhyw griwiau camera eisiau dod gydag arddangosydd yn ystod y digwyddiad.**

5. Telir pob gwobr ariannol trwy daliad BACS i arddangoswyr llwyddiannus o fewn 8 wythnos ar ôl y Sioe, ac eithrio mewn achosion o brotest.

TREFNU BLODAU

1. Fe fydd y Babell Eisteddflodau ar agor i dderbyn darnau arddangos amatur o **10.00am hyd at 9.00pm Ddydd Sul 19 Gorffennaf 2026** (bydd unrhyw bryd yn hwyrach na hyn yn amodol ar gytundeb blaenorol gyda'r Prif Stiward, ac yn ôl ei ddisgresiwn, yn unig).

2. **Ni cheir symud unrhyw ddarn arddangos amatur cyn 5pm ddydd Iau 23 Gorffennaf 2026.** Bydd y trefniadau mynediad er mwyn i arddangoswyr yn yr adran amatur symud eu darnau arddangos wedi eu cynnwys gyda'u pecyn mynediad.

3. Ni chaiff arddangoswyr ddod â'u cŵn i mewn i'r Babell.

4. Dyfnder y llwyfan ymhob achos yw 68cm – oni nodir yn wahanol (amcan yw'r holl fesuriadau a roddir). Ni chaniateir unrhyw ddyfeisiau mecanyddol.

5. **NI CHANIATEIR** cefndir ar gyfer unrhyw Ddosbarth CAFC.

6. **Rhaid gosod pob cais at ei gilydd yn y Babell ac eithrio dosbarthiadau 6, 9 a 10 a rhaid mai gwaith y cystadleuydd yn unig ydyw.**

7. Bydd byrddau trestl ar gael er mwyn i'r arddangoswyr eu defnyddio i osod eu deunyddiau ayb. wrth baratoi eu darnau arddangos.

8. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i bob adran yw dydd Mercher 24 Mehefin 2026.**
I gael cadarnhad bod eich ceisiadau wedi cael eu derbyn, cysylltwch â ni hyd nes dyddiad cau'r cystadlaethau.

9. Bydd y beirniadu'n dechrau'n brydlon am 7.30am **ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026.** Gellir diarddel unrhyw ddarn arddangos sydd heb ei lwyfannu'n gywir erbyn hynny. Bydd y Babell yn cael ei chlirio yn ystod y beirniadu ac ni fydd unrhyw un heblaw'r Beirniaid a'r Swyddogion sy'n bresennol yn cael bod yn y Babell hyd nes cwblhau'r beirniadu.
**Bydd y Babell Eisteddflodau ar agor i'r cyhoedd o 10.00am neu wedi cwblhau'r dyletswyddau beirniadu.**

10. Rhaid bod pob darn arddangos yn sefyll yn rhydd. Ni ddylai unrhyw ddarn arddangos fod wedi'i osod yn sownd wrth unrhyw ddarn o'r llwyfan a ddarperir. Gall y Prif Stiward ddirymu'r rheol hon os oes mater o ddiogelwch i'r cyhoedd.

11. **Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.** ***Gall beirniad unrhyw ddosbarth yn yr atodlen amatur, wrthod beirniadu darn arddangos os yw'n barnu nad ydyw o'r ansawdd y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan ddarn arddangos mewn Sioe Genedlaethol. Ni fydd ceisiadau yn y dyfodol, gan arddangosydd o'r fath, yn cael eu derbyn yn yr adran amatur.***
***Mae pob beirniad yn cadw'r hawl i gynghori'r stiwardiaid i symud darnau arddangos sy'n amlwg o safon isel ac yn adlewyrchu'n wael ar safon Sioe Genedlaethol.***

12. Gofynnir i arddangoswyr wneud yr holl waith adnewyddu angenrheidiol ar gyfer blodau wedi eu torri cyn 9.00am ar unrhyw ddiwrnod ar ôl diwrnod cyntaf y Sioe.

13. Rhaid protestio'n ysgrifenedig a'i roi i'r Prif Stiward o fewn hanner awr wedi cwblhau'r beirniadu, ynghyd â blaendal o £25.00 a ad-delir os cynhelir y brotest.
**Trefnwyd Panel sy'n cynnwys Prif Stiward, Pennaeth Gweinyddiaeth ac un Stiward Trefnu Blodau arall i symud unrhyw ddarnau arddangos o safon isel, delio ag unrhyw brotestiadau ayb.**

14. Mae'r Gymdeithas yn cadw i'w hun, trwy ei Bwrdd Cyfarwyddwyr, yr unig hawl a'r holl hawl i ddehongli'r amodau a'r rheoliadau hyn neu unrhyw amodau a rheoliadau eraill a osodir, neu daflenni gwobrau, ac i setlo a phennu pob mater, cwestiwn neu wahaniaeth mewn perthynas â'r rhain, neu sy'n codi fel arall yn sgil y Sioe, neu mewn perthynas â'r Sioe neu'n gysylltiedig â'r Sioe, yn ôl ei doethineb.

15. Ni fydd y Gymdeithas yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros golled neu ddifrod i ddarnau arddangos (neu unrhyw ran ohonynt) neu eiddo personol cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad neu ar ôl y digwyddiad, ac ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol am golled unrhyw blanhigyn, blodyn neu gynhwysydd wrth eu cludo i Faes y Sioe, o Faes y Sioe neu ar Faes y Sioe, yn ystod y digwyddiad neu ar ôl y digwyddiad.

16. Fe fydd Stiward ar ddyletswydd yn y Babell hyd nes 9pm **ddydd Sul 19 Gorffennaf 2026,** ac ar ôl hynny gellir cysylltu mewn argyfwng trwy'r Ganolfan Feddygol ar 01982 551057 neu Ganolfan Reoli'r Sioe ar 01982 551270. Gellir cysylltu â staff diogelwch yn y Fynedfa Peiriannau, 24 awr y dydd. Bydd gard ar batrôl gyda'r hwyr a dros nos yn ystod y Sioe.

17. **Yn ystod amserau llwyfannu yn yr Adran Amatur, dim ond arddangoswyr a swyddogion fydd yn cael aros.**

18. Dyfernir pwyntiau ar sail: 1$^{af}$ – 3, 2$^{il}$ – 2, 3$^{ydd}$ – 1.

19. Cyflwynir Rhoséd i enillydd pob gwobr gyntaf ymhob un o'r adrannau amatur.

20. Caniateir un darn arddangos yn unig gan un arddangosydd yn unrhyw un dosbarth.

21. Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw ddosbarth pan fo'r ceisiadau'n isel.

22. Er mwyn cydymffurfio â Gorchymyn Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol 1996 mae'n hanfodol nad oes unrhyw gynnyrch blawd esgyrn na chig yn cael eu defnyddio yn yr adran Trefnu Blodau.

23. Yn ddelfrydol, dylai arddangosydd fynd ag unrhyw wastraff a gynhyrchir wrth lwyfannu, adref, neu ei roi yn y biniau gwastraff ailgylchu perthnasol i'w casglu yn Rhodfa A.

24. Byddai swyddfa'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi cael gwybod pan na fydd modd arddangos mewn unrhyw ddosbarth, cyn gynted â phosibl cyn y Sioe.

25. Bydd cardiau a rhosedau a wobrwyir sydd ddim wedi cael eu casglu yn ystod y Sioe yn cael eu postio at yr arddangoswyr hynny sy'n cysylltu â'r swyddfa o fewn 6 wythnos ar ôl y digwyddiad yn unig.

**Cystadleuaeth Trefnu Blodau Sefydliad y Merched**

1. Agored i bob Ffederasiwn Sefydliad y Merched – un ymgais i bob Ffederasiwn.
2. Darn arddangos i'w lwyfannu ar fwrdd trestl. Caniateir gofod o 76cm o led a 68cm o ddyfnder. Nid oes cyfyngiad ar yr uchder – ni chaniateir defnyddio unrhyw gefndir ychwanegol.
3. Rhaid trefnu darnau arddangos yn y Sioe o fewn y gofod a ddyrannir. Rhaid arddangos enw'r cystadleuydd a'r Ffederasiwn.
4. Ceir gwario hyd at £50 ar flodau (ddim yn cynnwys dail) a bydd angen i gystadleuwyr darparu derbynneb yn y digwyddiad.
5. Bydd y darn arddangos yn cael ei feirniadu yn unol â rhifyn cyfredol Llawlyfr Cystadlaethau NAFAS.
6. Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol.
7. Mae darn arddangos yn cynnwys deunydd planhigion naturiol, gydag ategolion neu heb ategolion, o fewn y gofod a nodir yn yr atodlen.

**RHEOLAU CYSTADLEUAETH TREFNU BLODAU – M.Y.W.**

1. Man arddangos – 76cm (2'6") x 68cm (2'3"), unrhyw uchder.
2. Un aelod yn unig i osod y blodau, ond caniateir **dwy** ymgais o bob rhanbarth.
3. Rhaid gosod yr arddangosfa yn ystod y Sul cyn y sioe. Dylid clirio'r arddangosfa rhwng 5.00 a 6.00 o'r gloch ar ddiwrnod olaf y Sioe.
4. Ni fydd Merched y Wawr yn gyfrifol am unrhyw eitem o'r arddangosfa yn ystod cyfnod y Sioe.
5. Bydd y beirniadaethau yn cael eu cyfieithu brynhawn Llun gan gynrychiolydd o'r mudiad.
6. Gweler llyfr Merched y Wawr – Rheolau NAFAS am reolau trefnu blodau ar gyfer y gystadleuaeth.
7. Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol. Dylid cyflwyno unrhyw gŵyn cyn 6.00 o'r gloch nos Lun y Sioe a hynny yn ysgrifenedig wedi ei **lofnodi** a thâl o £25 i Brif Stiward Cystadleuaeth Merched y Wawr.

